## Y PWYLLGOR BUSNES

## ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR GYNIGION I NEWID RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNULLIAD YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 26.1

Ar 9 Mawrth 2000 eisteddodd y Pwyllgor Busnes mewn sesiwn arbennig i ystyried nifer o gynigion am ddiwygiadau i Reolau Sefydlog y Cynulliad.

Cytunodd holl Aelodau'r Pwyllgor â'r cynigion canlynol ac fe'u hargymhellir i'r Cynulliad. Cynhwysir newidiadau drafftio manwl i'r Rheolau Sefydlog o fewn y Cynnig a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Rheol Sefydlog 1.10 (Diwygiad 1)

Mae hwn yn ddiwygiad i dacluso sydd ei angen er mwyn sicrhau os yw'r Dirprwy Lywydd yn llwyddiannus yn y bleidiais am Orchymyn Rhan 7 RhS22 (neu'n methu gweithredu am reswm arall) gall y Llywydd eilio.

**Argymhellodd y Pwyllgor Busnes y dylid cytuno i'r diwygiad hwn.**

### Rheol Sefydlog 4.3 (Diwygiad 2)

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cynnig y dylai Aelodau allu rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r gofrestr buddiannau trwy'r post yn ogystal ag yn bersonol a chytunwyd ar hynny. Mae'r Pwyllgor Safonau hefyd wedi ystyried y cynnig a chytuno arno.

**Argymhellodd y Pwyllgor Busnes y dylid cytuno i'r diwygiad – gan nodi y byddai'n ddyletswydd ar Aelodau i sicrhau bod eu hysbysiad wedi'i dderbyn gan y Swyddfa Gyflwyno.**

### Rheol Sefydlog 6 (Diwygiad 3)

Cynigir y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog i ddarparu ar gyfer sefyllfa pan na all y Prif Ysgrifennydd (neu un o Ysgrifenyddion y Cynulliad) fod yn bresennol i ateb cwestiynau. Mae'r diwygiadau arfaethedig hefyd yn cymryd y cyfle i egluro rheol sefydlog 6.3(ii) nad yw, fel ag y mae, yn rhoi adlewyrchiad llawn o adran 56(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf yn darparu i'r Prif Ysgrifennydd ateb cwestiynau ar swyddogaethau'r Cynulliad yn y meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt yn ychwanegol at gwestiynau am arfer swyddogaethau'r Cabinet. Mae diwygiad canlyniadol i RhS6-28 yn nodi'n glir mai 1 cwestiwn yn unig y gall Aelodau ei gyflwyno i'r Prif Ysgrifennydd pan fydd yn ateb cwestiynau wythnosol ar swyddogaethau'r Cabinet; ond gall gyflwyno 2 gwestiwn i'r Prif Ysgrifennydd pan fydd yn ateb cwestiynau am ei bortffolio datblygu economaidd.

**Argymhellodd y Pwyllgor Busnes y dylid cytuno i'r diwygiad hwn ond nodwyd y dylid diwygio'r Cod Ymarfer ar Ymddygiad Ysgrifenyddion y Cynulliad (os oes angen) i adlewyrchu mai prif ddyletswydd y Prif Ysgrifennydd yw mynychu cyfarfodydd llawn.**

**Rheol Sefydlog (newydd) 8.25A (Diwygiad 4)**

Mae hyn yn ymwneud â galw cyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod toriad y Cynulliad.

**Argymhellodd y Pwyllgor Busnes y dylid cytuno i'r diwygiad hwn.**

**Rheol Sefydlog 19 (Diwygiad 5)**

Bydd yr ychwanegiad arfaethedig i Reol Sefydlog 19 yn galluogi Ysgrifennydd y Cynulliad i awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy; a bydd yn rhoi'r cyfle i Aelodau herio Ysgrifennydd Cynulliad cyn i'r trafodiad gael ei awdurdodi. Mae trafodion hysbysadwy yn cwmpasu rhoddion; dileu benthyciadau; a rhwymedigaethau amodol.

Mae'n cynnwys **rhodd** sydd naill ai'n werth mwy na £100,000 neu sydd â nodweddion gwahanol (o ran ei ddisgrifiad, ei derbynnydd, neu'r sefyllfaoedd yn gyffredinol) sy'n gwahaniaethu'n sy'n gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth y rhoddion hynny a roddir fel arfer gan gyrff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys benthyciad amhenodol neu fenthyciad am gyfnod mwy na chyfnod defnydd disgwyliedig asedau neu unrhyw drafodiad lle ceir gwared ag ased am lai na'i werth llawn. Mae **rhwymedigaeth** sy'n berthnasol i'r Rheol Sefydlog hon yn rhwymedigaeth wir neu'n rhwymedigaeth amodol a all fod yn fwy na £100,000 dan warant, indemniad, llythyr neu ddatganiad cysur neu drefniant arall sy'n cael effaith debyg ond nad yw'n cynnwys ymrwymiad contractol i wneud taliadau yn y dyfodol o dan gontract y cytunwyd arno yng nghwrs arferol cyflawni swyddogaethau'r Cynulliad neu ymrwymiad i wneud taliadau grant o dan gynllun grant statudol. Y **dilead benthyciad** sy'n berthnasol i'r Rheol Sefydlog hon yw'r dileu rhannol neu lawn o rwymedigaeth ad-dalu neu ddychwelyd arian neu eiddo arall a fenthycwyd gan y Cynulliad os mai effaith y dileu yw lleihau dyled y Cynulliad o fwy na £20 miliwn.

Mae'r Rheol Sefydlog drafft yn gofyn i un o Ysgrifenyddion y Cynulliad roi datganiad gerbron y Cynulliad am Drafodiad Hysbysadwy arfaethedig. Bydd yr Aelodau wedyn yn cael 10 niwrnod i gofrestru cynnig gwrthwynebu. Bydd yn rhaid i un o Ysgrifenyddion y Cynulliad wedyn gyflwyno cynnig yn ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad i wneud y trafodiad. Dim ond mewn achosion brys sy'n ymwneud â rhwymedigaeth amodol y gall yr Ysgrifennydd Cynulliad awdurdodi trafodiad heb yn gyntaf roi datganiad gerbron y Cynulliad. Mewn sefyllfaoedd o'r fath byddai'n rhaid iddo ef neu hi roi datganiad llafar i'r Cynulliad mor fuan â phosibl ar ôl i'r trafodiad gael ei awdurdodi.

**Argymhellodd y Pwyllgor Busnes y dylid cytuno i'r diwygiad hwn. Nodwyd na allai Ysgrifennydd**

**Cynulliad ond defnyddio’r ddarpariaeth frys ar gyfer rhwymedigaethau amodol a derbyniwyd y gallai sefyllfaoedd godi – yn enwedig yn ystod trafodaethau masnachol – pan all fod yn rhaid ei ddefnyddio.**

**Rheol Sefydlog 22 Rhan 7 (Diwygiad 6)**

Mae’r diwygiad hwn yn rhoi ystyriaeth i benderfyniad y Pwyllgor Busnes y dylid trafod cynnig a gyflwynwyd gan yr Aelod oedd yn llwyddiannus yn y bleidlais ar gyfer Gorchymyn dan Reol Sefydlog 22 Rhan 7 o fewn 4 wythnos.

**Argymhellodd y Pwyllgor Busnes y dylid cytuno i’r diwygiad hwn.**

**Rheol Sefydlog 23 (Diwygiad 7)**

Mae’r diwygiad hwn yn rhoi ystyriaeth i gynnig a gymeradwywyd yn y cyfarfod llawn ar 2 Chwefror "… yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i gyflwyno i’r Pwyllgor Busnes gynigion ar gyfer diwygio’r Rheolau Sefydlog i ddod â’r protocol i rym cyn gynted â phosibl." Cyfeiria at y protocol drafft gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar brif gynigion deddfwriaethol y Cynulliad (a roddwyd gerbron y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr).

**Argymhellodd y Pwyllgor Busnes y dylid cytuno i’r diwygiad hwn.**

**Rheol Sefydlog 23 (Diwygiadau 8-10)**

Mae’r rhain yn ddiwygiadau o ganlyniad i benderfyniad cynharach i ddiwygio Rheolau Sefydlog er mwyn sicrhau y dylai bod unrhyw bapurau a gyflwynir ar gyfer dadl ar gael 5 niwrnod cyn y drafodaeth.

**Argymhellodd y Pwyllgor Busnes y dylid cytuno i’r diwygiad hwn.**

**Jane Davidson**

**Dirprwy Lywydd**

**Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes Mawrth 2000**